

Fenoplasti drwy'r croen ar gyfer annigonolrwydd gwythiennol serebro-sbinal cronig ar gyfer sglerosis ymledol

30 Ionawr 2019

Ni ddylid defnyddio'r driniaeth hon. Mae'r dystiolaeth yn dangos nad yw'n ddiogel ac nad yw'n gweithio ar gyfer annigonolrwydd gwythiennol serebro-sbinal cronig ar gyfer sglerosis ymledol.

Awgrymwyd y gall symptomau sglerosis ymledol gael eu hachosi, neu eu gwaethygu, gan wythiennau wedi'u blocio yn y gwddf neu'r frest (annigonolrwydd gwythiennol serebro-sbinal cronig). Mae'r driniaeth hon yn cynnwys gosod balŵn wedi'i lenwi ag aer yn y gwythiennau yn y gwddf neu'r frest er mwyn ceisio eu lledaenu. Weithiau, bydd tiwb byr (stent) yn cael ei adael er mwyn cadw'r gwythiennau ar agor. Y nod yw gwella llif y gwaed a symptomau'r claf.

Dylai eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol siarad â chi am opsiynau triniaeth eraill.

Mae gan [ganllawiau triniaethau ymyriadol](#) NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

ISBN: 978-1-4731-3239-9